

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services	1
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport	3

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

Gwasanaethau y tu allan i Oriau Meddygon Teulu Out-of-Hours General Practice Services

Q9 Leanne Wood: What discussions has the Minister had with local health boards regarding GP out-of-hours services? OAQ0541(HSS)

C9 Leanne Wood: Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog gyda byrddau iechyd lleol ynghylch gwasanaethau y tu allan i oriau meddygon teulu? OAQ0541(HSS)

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): The new general medical services contract gave general practitioners the right to opt out of the provision of these services. Local health boards then took on this responsibility. A number of health circulars and guidance notes was produced to help LHBs with these new duties.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Rhoddodd y contract gwasanaethau meddygol cyffredinol newydd yr hawl i feddygon teulu beidio â darparu'r gwasanaethau hyn. Cyfrifoldeb byrddau iechyd lleol ydyw erbyn hyn. Cynhyrchwyd nifer o gylchlythyrau iechyd a nodiadau canllaw i helpu'r byrddau iechyd lleol gyda'r dyletswyddau newydd hyn.

Deintyddiaeth yn y Gogledd Dentistry in North Wales

Q10 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on dentistry in north Wales? OAQ0527(HSS)

C10 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddeintyddiaeth yn y gogledd? OAQ0527(HSS)

Brian Gibbons: Steps have been taken to improve access through the Welsh dental initiative and personal dental service schemes. To date, PDS schemes have secured NHS dental care for 25,000 existing and 1,000 new patients in north Wales. Two other applications are currently being considered.

Brian Gibbons: Cymerwyd camau i wella mynediad drwy fenter ddeintyddol Cymru a chynlluniau gwasanaethau deintyddol personol. Hyd yn hyn, mae cynlluniau gwasanaethau deintyddol personol wedi sicrhau gofal deintyddol y GIG i 25,000 o gleifion presennol a 1,000 o gleifion newydd

yn y gogledd. Ystyrir dau gais arall ar hyn o bryd.

Gwasanaethau Deintyddol Dental Services

Q11 Jenny Randerson: What are the Minister's plans for improving dental services in Wales? OAQ0566(HSS)

C11 Jenny Randerson: Beth yw cynlluniau'r Gweinidog ar gyfer gwella gwasanaethau deintyddol yng Nghymru? OAQ0566(HSS)

Brian Gibbons: We are introducing a new dental contract to improve access and the working lives of dentists. A sum of £5 million is available to roll out personal dental service schemes. We are continuing to work with local health boards to utilise dental initiative grants to secure NHS provision and support the development of vocational training.

Brian Gibbons: Yr ydym yn cyflwyno contract deintyddol newydd i wella mynediad a bywyd gwaith deintyddion. Mae swm o £5 miliwn ar gael ar gyfer cyflwyno cynlluniau gwasanaethau deintyddol personol. Yr ydym yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd lleol i ddefnyddio grantiau mentrau deintyddol i sicrhau darpariaeth y GIG a chynorthwyo'r broses o ddatblygu hyfforddiant galwedigaethol.

Preifateiddio'r Gwasanaeth Iechyd The Privatisation of the National Health Service

Q12 Owen John Thomas: Does the Minister have any plans to privatise the national health service in Wales? OAQ0514(HSS)

C12 Owen John Thomas: A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i breifateiddio'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru? OAQ0514(HSS)

Brian Gibbons: We have no plans to privatise the national health service in Wales. 'Designed for Life', issued in May 2005, sets out our vision for a world-class health service by 2015, which was welcomed in Plenary on 22 November 2005.

Brian Gibbons: Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i breifateiddio'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru. Mae 'Cynllun Oes', a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005, yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaeth iechyd o'r radd flaenaf erbyn 2015, a chroesawyd hyn yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Tachwedd 2005.

Argaeledd Gwasanaethau'r GIG The Availability of NHS Services

C13 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd gwasanaethau NHS yng ngorllewin a chanolbarth Cymru? OAQ0557(HSS)

Q13 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on the availability of NHS services in west and mid Wales? OAQ0557(HSS)

Brian Gibbons: 'Designed for Life' includes action to improve health, social care and wellbeing for all, and transform services. It will focus in the first three years on improving coronary heart disease, cancer, mental health services, services for older people and children, services for those with chronic diseases and those awaiting elective

Brian Gibbons: Mae 'Cynllun Oes' yn cynnwys camau i wella iechyd, gofal cymdeithasol a lles i bawb, ac i weddnewid gwasanaethau. Bydd yn canolbwyntio yn y tair blynedd cyntaf ar wella clefyd coronaidd y galon, canser, gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau i bobl hŷn a phlant, gwasanaethau i'r rhai sydd ag afiechydon

treatment.

hirdymor ac i'r rhai sy'n aros am driniaeth ddewisol.

'Agenda ar gyfer Newid'
'Agenda for Change'

Q14 Eleanor Burnham: Will the Minister make a statement on 'Agenda for Change'? OAQ0567(HSS)

C14 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr 'Agenda ar gyfer Newid'? OAQ0567(HSS)

Brian Gibbons: Currently, 60 per cent of staff in Wales have been matched and nearly 20 per cent have been assimilated to Agenda for Change pay. The agreement in Wales, reached in partnership, is that the matching and assimilation process should be broadly complete by the end of December.

Brian Gibbons: Ar hyn o bryd, mae 60 y cant o staff yng Nghymru wedi'u paru a bron i 20 y cant wedi'u cymathu â chyflogau'r Agenda ar gyfer Newid. Y cytundeb yng Nghymru, a gafwyd drwy bartneriaeth, yw y dylai'r broses gyfatebu a chymathu gael ei chwblhau fwy neu lai erbyn diwedd mis Rhagfyr.

Gwasanaethau Clywedol yng Ngorllewin Cymru
Auditory Services in West Wales

C15 Elin Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau clywedol yng ngorllewin Cymru? OAQ0540(HSS)

Q15 Elin Jones: Will the Minister make a statement on auditory services in west Wales? OAQ0540(HSS)

Brian Gibbons: Gwasanaeth allgyrraedd o Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin yw gwasanaeth awdioleg Ceredigion, a bydd yn cynnal clinigau ychwanegol am weddill y flwyddyn i helpu wrth fynd i'r afael â'r galw sylweddol ar y gwasanaeth yn yr ardal. Bydd gwasanaeth atgyfeirio uniongyrchol newydd ar gyfer cleifion cymhorthion clyw yn helpu i wella mynediad at wasanaethau awdioleg.

Brian Gibbons: Ceredigion's audiology service is an outreach from Carmarthenshire NHS Trust and will undertake extra clinics for the rest of the year to help address the considerable demand on the service in the area. A new direct referral service for hearing aid patients will help improve access to audiology services.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Darpariaeth Theatr ym Merthyr Tudful
Theatre Provision in Merthyr Tudfil

Q11 Huw Lewis: Will the Minister make a statement on any plans to develop theatre provision in Merthyr Tydfil? OAQ0496(CWS)

C11 Huw Lewis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynlluniau i ddatblygu darpariaeth theatr ym Merthyr Tudful? OAQ0496(CWS)

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): The Arts Council of Wales night out scheme has delivered excellent theatre product in Merthyr, doubling its performances from 4 in 2004-05 to 8 so far in 2005-06. The arts council is also developing an English

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Mae cynllun noson allan Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cyflwyno perfformiadau ardderchog ym Merthyr, gan eu dyblu o 4 yn 2004-05 i 8 hyd yn hyn yn 2005-06. Mae'r cyngor celfyddydau hefyd yn datblygu polisi theatr

language theatre policy to increase the amount of theatre product in south Wales.

iaith Saesneg i gynyddu nifer y perfformiadau yn ne Cymru.

Darpariaeth Chwaraeon yn y De-Ddwyrain Sports Provision in South-East Wales

Q12 Jocelyn Davie: Will the Minister make a statement on sports provision in south-east Wales? OAQ0519(CWS)

C12 Jocelyn Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth chwaraeon yn y de-ddwyrain? OAQ0519(CWS)

Alun Pugh: South-east Wales has benefitted from a significant investment in sports facilities over the last 10 years. Our Sports Council for Wales has invested over £40 million in a range of sports facilities including the National Velodrome in Newport and local projects such as improvements to sports facilities in New Tredegar.

Alun Pugh: Mae de-ddwyrain Cymru wedi cael budd o fuddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau chwaraeon yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi dros £40 miliwn mewn amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon, gan gynnwys y Felodrom Cenedlaethol yng Nghasnewydd a phrosiectau lleol fel gwella cyfleusterau chwaraeon yn Nhredeggar Newydd.

Blaenoriaethau Cyllidebol Allweddol Key Budget Priorities

Q13 Nick Bourne: Will the Minister make a statement on his key budget priorities. OAQ0509(CWS)

C13 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau cyllidebol allweddol? OAQ0509(CWS)

Alun Pugh: My key priorities are to increase the level of participation in physical activity and to promote cultural access and excellence for all. It is a shame that you did not share my ambitions by asking for additional funding for culture in this budget round

Alun Pugh: Fy mlaenoriaethau allweddol yw cynyddu lefel y cyfranogiad mewn gweithgareddau corfforol a hyrwyddo rhagoriaeth a mynediad diwyllianol i bawb. Mae'n drueni nad oeddech wedi rhannu'r un uchelgeisiau â mi drwy ofyn am arian ychwanegol ar gyfer diwylliant yn y cylch cyllido hwn.

Twf Ieithyddol Language Growth

C14 Alun Ffred Jones: A wnaiff y gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd cael gwybodaeth cyfoes pan yn cynllunio ar gyfer twf ieithyddol? OAQ0531(CWS)

Q14 Alun Ffred Jones: Will the Minister make a statement on the availability of up to date information when planning for language growth? OAQ0531(CWS)

Alun Pugh: Bydd canlyniadau cyntaf arolygon defnydd o'r Gymraeg a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i'w gynnal dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2004 a 2006, yn cael eu cyhoeddi oddeutu troad y flwyddyn newydd a bydd yn ffynhonnell newydd werthfawr o wybodaeth.

Alun Pugh: The first results from the series of Welsh language use surveys commissioned by the Welsh Language Board, to be held over 3 years from 2004 to 2006, will be published around the turn of the year and will be a valuable new source of information.

Hyrwyddo Deddf yr Iaith yn y Gweithle Promotion of the Welsh language Act in the Workplace

Q15 Glyn Davies: Will the Minister make a statement on how the Welsh Language Act is promoted in the workplace?
OAQ0505(CWS)

Alun Pugh: As part of our vision of a bilingual Wales, the Assembly Government is working to increase opportunities for people to use the Welsh language in all aspects of life, including the workplace. Innovative schemes, such as Iaith Gwaith and Iaith Busnes, are further developing these opportunities.

C15 Glyn Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y caiff Ddeddf yr Iaith Gymraeg ei hyrwyddo yn y gweithle?
OAQ0505(CWS)

Alun Pugh: Fel rhan o'n gweledigaeth ar gyfer Cymru ddwyieithog, mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio tuag at gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd, gan gynnwys yn y gweithle. Mae cynlluniau arloesol, fel Iaith Gwaith a Iaith Busnes, yn datblygu'r cyfleoedd hyn ymhellach.